Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Cau gwefan Swyddi Tai Cymru

## Cwestiynau Cyffredin

### Pam fod y wefan yn cau?

I fod yn onest a thryloyw, mae'r tirlun recriwtio wedi newid. Dangosodd adolygiad diweddar fod llwyfannau integredig fel [Charity Job Finder] bellach yn cynnig mwy o amlygrwydd ar gyfer swyddi na safle ar wahân. Rydym eisiau sicrhau fod eich swyddi gwag yn cyrraedd y gronfa ehangaf bosibl o dalent.

### Sut mae'r newid hwn o fudd i'n recriwtio?

Mae'r newid hwn yn ymwneud â sicrhau fod y dulliau gorau ar gael gennych i ddenu pobl dalentog. Mae'r Charity Job Finder yn llwyfan sy'n perfformio'n uchel ac mae landlordiaid cymdeithasol sy'n hysbysebu swyddi ar y safle hwn yn dweud fod gwell ymgysylltu a cheisiadau o safon uwch.

### A fyddwn yn colli ein credydau swydd presennol?

Na fyddwch. Mae gennym ymroddiad gwirioneddol i'ch cefnogi drwy'r newid hwn. Os oes gennych gredydau ar ôl, byddwn yn sicrhau y cânt eu trosglwyddo yn llawn neu eu cyfateb drwy Charity Job Finder heb unrhyw gost ychwanegol i chi.

### Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf?

Nid oes angen i chi weithredu ar unwaith am eich credydau; byddwn yn eich cefnogi gyda'r broses drosglwyddo. Gallwch gysylltu â [Bev Garside] yn Charity Job Finder os oes gennych gwestiynau penodol am hysbyseb fyw.

## A fydd Charity Job Finder yn cyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg am hysbysebion recriwtio?

Er y cafodd llwyfan Charity Job Finder ei strwythuro yn Saesneg yn bennaf, rydym yn rhoi cefnogaeth lawn i hysbysebion Cymraeg. Rydym yn cynnwys hysbysebion swyddi dwyieithog a Chymraeg yn unig yn gyson a chafodd ein safle ei hwyluso ar gyfer termau chwilio Cymraeg i sicrhau amlygrwydd i siaradwyr Cymraeg.

Rydym mewn cyswllt â chymdeithasau tai a chyrff trydydd sector mewn ardaloedd Cymraeg i sicrhau fod y llwyfan yn diwallu eu hanghenion.

Mae Charity Job Finder yn parhau i fod yn ymrwymiad i gefnogi'r Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg a ddisgwylir yn y sector tai a'r sector elusennol.